**Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-05-00(p.8)**

**Dyddiad:** **15 Mawrth 2000**
**Lleoliad:**
**Teitl:** **Hyblygrwydd diwedd blwyddyn**

**Diben**

1. Bwriad y papur hwn yw egluro trefniadau cario adnoddau dan y cynllun hyblygrwydd diwedd blwyddyn (HDB). Cylchredir y papur hwn er gwybodaeth.

**Crynodeb/Argymhellion**

2. Mae'r papur yn egluro cefndir y cynllun HDB, ei weithredu ar sail y DU gyfan a sut i'w drosi i gyllideb y Cynulliad yn y flwyddyn ariannol hon. Gofynnir i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd nodi'r sefyllfa.

**Amseru**

3. Gofynnodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd am y papur hwn er gwybodaeth yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2000.

**Cefndir**

4. Mae'r cynllun HDB yn drefniant sydd wedi bodoli ers nifer o flynyddoedd. Mae'n galluogi Adrannau'r Llywodraeth i gario adnoddau heb eu gwario o un flwyddyn ariannol i'r nesaf.

5. Cyn 1998, roedd amryw o gyfyngiadau'n bodoli ar gymhwyso trefniadau HDB. Roedd cario adnoddau heb eu gwario yn dibynnu ar natur y rhaglen ac yn amrywio yn ôl cyllidebau cyfalaf neu gyfredol. Nid oedd modd cario tanwariant nad oedd yn cydymffurfio â meini prawf HDB, ac felly roedd yn cael ei ildio i'r Gronfa Gyfnerthedig.

6. Yn sgil cyflwyno trefn reoli newydd ar gyfer Gwariant Cyhoeddus (hy Cyfyngiadau Gwariant Adrannol (CGA) a Gwariant wedi'i Reoli'n Flynyddol (GRF)) pan gyflwynwyd Arolwg Cynhwysfawr o Wariant 1998, cytunodd y Trysorlys y byddai gan Adrannau'r Llywodraeth hyblygrwydd diwedd blwyddyn llwyr ar wariant o fewn Cyfyngiadau Gwariant Adrannol. Cychwynnodd y cynllun newydd trwy gario tanwariant 1998-99 i 1999-00.

**Gweithredu**

7. Yn unol ag Adrannau Whitehall, bydd y Cynulliad yn rhoi manylion i'r Trysorlys am alldro terfynol 1999-00 yn gynnar ym mis Mehefin. Yna, bydd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys yn cyflwyno ateb ysgrifenedig i'r Senedd yn ei hysbysu yngln â'r swm i'w gario gan bob un o Adrannau'r Llywodraeth. Fel rheol, bydd hyn yn digwydd ym mis Gorffennaf bob blwyddyn cyn i'r Senedd dorri am yr haf. Mae'r broses hon yn nodi hawl pob adran i gario adnoddau: yn anaml iawn y bydd yn cael ei newid wedi hynny oni bai bod amcangyfrif alldro adran yn cael ei ddiwygio'n sylweddol.

8. Pan gyhoeddwyd hawl cario adnoddau tanwariant 1998-99 i 1999-00 i'r Senedd ar 27 Gorffennaf 1999 (Hansard, Colofn 393), penderfynodd Golygydd Hansard, yn groes i'r arfer, y dylai'r tabl a oedd yn dangos y ffigurau gael ei osod yn Llyfrgell y T er mwyn i Aelodau Seneddol ei weld, yn hytrach na'i gyhoeddi yn Hansard fel y blynyddoedd cyn hynny. Er gwybodaeth, roedd y manylion ar gyfer Cymru fel a ganlyn -

| Gweinyddiaethau datganoledig | Costau cynnal | Cyfalaf | Cronfeydd Strwythurol y CE | O Fudd-daliadau i Waith | Arall | £'000 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | **0** | **0** | **46,261** | **6,529** | **135,929** | **188,719** |

DS. Yn y dyfodol, yr hawl ar gyfer O Fudd-daliadau i Waith (nad yw wedi'i gynnwys yng Nghyllideb Benodedig y Cynulliad Cenedlaethol) yn unig fydd yn cael ei nodi ar wahân.

**Defnyddio'r hawl i gario adnoddau**

9. Fel rheol mae defnyddio'r hawl i gario adnoddau yn gofyn am Amcangyfrif Atodol. Mae'r Amcangyfrif Atodol yn gofyn yn ffurfiol i'r Senedd bleidleisio ar yr arian ychwanegol sydd ei angen o'r Gronfa Gyfnerthedig i'w dalu i'r Cynulliad. Ysgrifennydd Gwladol Cymru sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Amcangyfrif Atodol i'r Senedd. Mewn gwirionedd, fel rheol, penderfynir defnyddio'r hawl i gario adnoddau pan gyflwynir Amcangyfrif Atodol y Gaeaf (a gyflwynir i Senedd y DU ym mis Tachwedd bob blwyddyn) neu Amcangyfrif Atodol y Gwanwyn (a gyflwynir i Senedd y DU ym mis Mawrth bob blwyddyn), neu'r ddau yn ôl yr angen. Nid oes rhaid defnyddio'r ddarpariaeth cario adnoddau hyd nes bod angen gwneud hynny: felly, gall adnoddau i'w cario na chawsant eu defnyddio gael eu cynnwys wrth gyfrif HDB y flwyddyn ganlynol.

10. Mae'r Cynulliad wedi penderfynu defnyddio'r ddarpariaeth ganlynol i gario adnoddau o 1998-99 -

Amcangyfrif Atodol y Gaeaf £98.660 miliwn

Amcangyfrif Atodol y Gwanwyn £0.300 miliwn

Mae hynny'n gadael gweddill o **£89,759 miliwn** y mae'r Ysgrifennydd Cyllid wedi'i glustnodi i'r dibenion canlynol a gyhoeddwyd yn ystod trafodaethau'r gyllideb -

| **Rhaglen** | **Swm (£ miliwn)** |
|---|---|
| ERDF | 62.000 |
| Taliadau Llaeth | 0.200 |
| Brechlyn llid yr ymennydd | 8.000 |
| Strategaeth Gyffuriau | 1.500 |
| Sector gwirfoddol | 0.500 |
| Cymorth Rhanbarthol Dethol | 3.900 |
| Ymddiriedolaeth Meysydd Glo | 1.500 |
| Cyfle Cyfartal | 0.100 |
| O Fudd-daliadau i Waith | 5.411 |
| Ymchwiliad Cam-drin Plant y Gogledd | 2.000 |
| Cysylltiadau rheilffordd De-Gogledd | 0.750 |
| Arall | 3.898 |
| **Cyfanswm ymrwymiadau** | **89.759** |

**Y dyfodol**

11. Ni fyddwn yn gwybod beth yw sefyllfa alldro y flwyddyn ariannol hon hyd ddiwedd Mai neu ddechrau Mehefin. Mae'n rhy gynnar i amcangyfrif yn bendant beth fydd lefel debygol y tanwariant, ond disgwylir i lawer ohono fod yn llithriad gwariant yn erbyn yr ymrwymiadau yn hytrach nag arbedion y gellid eu hailgyfeirio i flaenoriaethau eraill y Cynulliad. Bydd y broses a nodwyd eisoes yn y papur hwn ar gyfer cario unrhyw danwariant i flynyddoedd ariannol eraill yn cael ei rhoi ar waith pan fyddwn yn gwybod beth yw'r alldro. Bydd yr Ysgrifennydd Cyllid yn hysbysu'r Cynulliad ar yr amser priodol.

**Cydymffurfio**

12. Nid oes gan y cynllun HDB unrhyw sail statudol - yn hytrach mae'n drefniant gweinyddol y cytunwyd arno â'r Trysorlys. Nodir trefniadau rheoli cyllideb y Cynulliad yn Rheol Sefydlog 19. Nid oes unrhyw faterion rheoleidd-dra na phriodoldeb yn gysylltiedig â'r papur hwn. Mae Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad wedi nodi cynnwys y papur hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

13. Mae'r Ysgrifennydd Cyllid wedi cymeradwyo'r papur hwn.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor**

14. Nodi gweithrediad cynllun HDB.

**Cyswllt**

15. Paratowyd y papur hwn gan yr Is-adran Cynllunio Ariannol. Y swyddogion i gysylltu â hwy yw Dr Emyr Roberts, Pennaeth yr Is-adran ar est 3765 neu Mr Charles Taylor, Pennaeth FP1A ar est 5615.